
# Sut i droi eich cymhorthion clyw ymlaen a'u diffodd, a newid y batri




**Troi Ymlaen**
Ar ôl rhoi batri i mewn, caewch ddrws y batri yn gyfan gwbl i droi eich cymhorthion clyw ymlaen.

**Diffodd**
Agorwch ddrws y batri nes y byddwch yn teimlo clic i ddiffodd eich cymhorthion clyw.

**Newid y batri**

**Pan fydd pŵer y batri yn isel**

- Byddwch yn clywed bîp yn eich cymhorthion clyw pan fydd y batri'n dechrau mynd yn isel.
- Bydd y bîp rhybuddio hwn yn ailadrodd bob 15 munud nes bydd y batri'n gwbl wag.

## Sut i droi eich cymhorthion clyw ymlaen a'u diffodd, a newid y batri (parhad)

**I newid y batri**

- Tynnwch y label gludiog oddi ar y batri newydd.
- Agorwch ddrws y batri.
- Tynnwch yr hen fatri allan drwy ei dynnu tuag i fyny.
- Rhowch y batri newydd i mewn yn ei le. Gwnewch yn siŵr bod yr ochr wastad (â symbol + arni) yn wynebu i fyny.




**AWGRYM DEFNYDDIOL:**
*I arbed y batri, cofiwch ddiffodd eich teclyn clyw pan na fyddwch yn ei ddefnyddio.*

I gael rhagor o gymorth, sganiwch y cod QR neu ewch i'n porth cymorth i gleifion yn: **danalogic.co.uk/patient-portal**

Y dewis cywir ar gyfer y GIG

danalogic GN

UK 06.49 C 9.2022